**Sesiwn 1999-2000 Rhif 2**

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH 18 MAI 1999

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

2.00 **Pwyllgor Busnes**

**Cynnig** *bod y Cynulliad, dan reol sefydlog 13.2, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Busnes:*

*Andrew Davies (Llafur)*

*Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru)*

*Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol)*

*David Davies (Ceidwadwyr)*

*A hefyd Jane Davidson (Dirprwy Lywydd) i gadeirio'r pwyllgor.*

I'w gynnig gan y Trefnydd

**Datganiad Busnes**: Y Trefnydd

**Cod Safonau ar Ymddygiad**

**Cynnig** *bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu, fel Cod Safonau i'r Aelodau, y ddogfen dan yr enw hwnnw a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mai 1999*.

(Copi ar We'r Siambr a'r Fewnrwyd).

I'w gynnig gan y Trefnydd

**Cod Ymddygiad i Ysgrifenyddion y Cynulliad**

**Cynnig** *bod y Cynulliad, dan reol sefydlog 2.7, yn penderfynu cymeradwyo'r Arweiniad i Ysgrifenyddion y Cynulliad ar gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n briodol, a geir yn y ddogfen dan y teitl "Cod Ymddygiad i Ysgrifenyddion y Cynulliad", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mai 1999*.

(Copi ar We'r Siambr a'r Fewnrwyd).

I'w gynnig gan y Trefnydd

**Cod Ymddygiad yn y Siambr**

**Cynnig** *bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu, fel ei God Ymddygiad yn y Siambr, y ddogfen dan yr enw hwnnw a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mai 1999*.

(Copi ar We'r Siambr a'r Fewnrwyd).

I'w gynnig gan y Trefnydd

**Penderfyniad i ddirprwyo swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd**

**Cynnig**

*(1) bod y Cynulliad, gan weithredu dan adran 62(1)(b) o Ddeddf*

*Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo, yn amodol ar baragraff (2) ac unrhyw benderfyniad arall gan y Cynulliad, ei swyddogaethau i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad.*

*(2) Nid yw paragraff (1) yn ymwneud ag unrhyw swyddogaeth y mae'r Cynulliad wedi'i rwystro rhag ei dirprwyo dan y Ddeddf honno.*

I'w gynnig gan y Trefnydd

****************

**Bydd y Cynulliad yn cyfarfod mewn Sesiwn Llawn eto am 2pm ddydd Mercher 19 Mai 1999**

J W Lloyd

Clerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru